HOUSE OF COMMONS
LONDON SW1A 0AA

Mr M W Evans Ph.D, D.Sc (Wales)
Cornell University Engineering & Theory Centre Building
Hoy Rd
Ithaca
NEW YORK
14853 - 3801 USA

5ed Mehefin 1992

Annwyl MW Evans

Diolch yn fawr i chi am eich llythyr ac yn enwedig am eich cyfraniad ariannol caredig i Blaid Cymru. Rwy'n falch iawn eich bod yn awyddus i ymuno a ni.

Nodaf gyda diddordeb rhai o'ch pryderon ynghylch polisi Prifysgol Cymru mewn perthynas a'r iaith Gymraeg, a'i holl gyfeiriad. Rwy o'r un farn yn union a chi bod angen i'r Brifysgol i weithredu fel Prifysgol gwirioneddol genedlaethol i Gymru ac i wneud cyfraniad o bwys i ddatblygiad bywyd cenedlaethol.

Mae eich sylwadau ynghylch eich anallu eich hunan i gael eich penodi i swyddi ym Mhrifysgol Cymru tra'n llwyddo i ddatblygu gyrfa lwyddiannus iawn yn yr UDA yn destun pryder mawr. Byddai gennyf ddiddordeb i dderbyn manylion ynghylch rhai o'ch ceisiaduau i gael eich penodi gan y Brifysgol. Yn enwedig fe hoffwn dderbyn gwybodaeth am unrhyw gais a gallech ei wneud yn y dyfodol.

Os byddwch yng Nghymru rhywbryd buaswn yn falch i gael sgwrs a chi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ac hefyd i drafod eich syniadau ynghylch datblygu polisiau ar gyfer y Brifysgol ac ar gyfer Cymru yn gyffredinol

Yn gywir

Cynog Dafis

Cynog Dafis AS